



Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

Sut y gall busnesau
bwyd a diod gael
gafael ar fenthyca
tymor byr ar gyfer
cyfalaf gweithio



Mae argyfwng Covid-19 yn rhoi straen ar ofynion cyfalaf gweithio busnesau bwyd a diod: efallai trwy golli refeniw tra bod dal angen talu am dreuliau; neu, yn fwy cadarnhaol, trwy welliant mewn masnach, gyda mwy o wariant ar gynhyrchu cyn derbyn yr incwm cynyddol a ragwelir.

Yr hyn sydd gan y ddau senario yn gyffredin yw y bydd darpar fenthycwyr yn dal i ddisgwyl i fusnesau bwyd a diod gyflwyno achos busnes hyfyw o blaid benthyca, beth bynnag yw'r rheswm dros wneud cais am fenthyciad.

Gan dybio bod eich busnes bwyd neu ddiod yn pasio'r profion "cymhwysedd" sylfaenol, beth ddylech chi fod yn ei wneud i gynyddu eich siawns o lwyddo i sicrhau cyllid tymor byr i'ch helpu chi gyda'ch gwaith anghenion cyfalaf?



Sut ydych chi'n argyhoeddi benthyciwr eich bod chi'n risg o'da?

Mae benthycwyr eisiau bod yn weddol hyderus y byddant yn cael eu harian yn ôl gyda llog.

Er mwyn iddynt fod yn hyderus, yn gyffredinol mae ganddyn nhw restr o'r pethau maen nhw'n hoffi eu gweld mewn cynnig ac, er ei fod yn wahanol o fenthyciwr i fenthyciwr, mae'r gofynion hyn yn debygol o gynnwys y canlynol:

Beth yw'r busnes a pha farchnad y mae'n ei wasanaethu?

Mae defnyddio dadansoddiad PESTEL yn helpu i ddangos eich bod chi yn deall y ffactorau a'r risgiau sy'n effeithio ar eich busnes. Mae PESTEL yn ymdrin â'r Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasol, Technolegol, Amgylcheddol a Chyfreithiol.


Bydd cynnwys y math hwn o ddadansoddiad yn rhoi hyder i fenthyciwr arfaethedig eich bod yn ystyried sut y gallai ffactorau ehangach effeithio ar eich busnes. Mae angen esbonio'r ffactorau hyn a'u heffeithiau posibl yng nghyd-destun eich busnes bwyd neu ddiod.

Eich cynhyrchion a'ch marchnadoedd

Beth yw'r cynhyrchion rydych chi'n eu cynnig? Pwy yw eich grwpiau cwsmeriaid? Pwy yw eich defnyddwyr?

Efallai y bydd cwsmeriaid (y bobl / sefydliadau sy'n prynu gennych chi) yr un fath â'ch defnyddwyr (y bobl sydd, yn llythrennol, yn bwyta'ch cynhyrchion) neu gallent fod yn wahanol.

Efallai mai cyfanwerthwyr bwyd cain yn Llundain fydd eich cwsmeriaid, ac mae eich defnyddwyr yw'r bobl sy'n prynu o neuaddau bwyd/delis annibynnol. A allwch chi dystiolaethu sut mae'ch cynhyrchion yn apelio at y ddau grŵp?



Sut ydych chi'n cyfathrebu â'ch grwpiau
cwsmeriaid a defnyddwyr?

Sut ydych chi'n cael eich cynhyrchion i'ch
cwsmeriaid a sut ydych chi'n cyfleu nodweddio a
buddion brand eich cynhyrchion i gwsmeriaid a
defnyddwyr?

Oes gennych chi bwynt gwahaniaeth ac a allwch
chi gyfleu beth ydyw?

Amdanoch chi a'ch tîm

Cofiwch, trwy fenthycyca i'ch busnes, bod y
benthyciwr, mewn gwirionedd, yn dibynnu arnoch
chi a'ch gallu chi (neu'ch tîm) i ail-dalu'r benthyciad
ynghyd â llog.

Meddyliwch sut y gallwch chi arddangos eich
cymwysterau a rhai eich tîm fel bod gan fenthyciwr
hyder yn eich sgiliau busnes ac y bydd y benthyciad
yn risg dda.

Bydd y ffactorau hyn yn eich helpu i ddechrau
rhoi rhywfaint o siâp ar gynllun busnes a
pharatoi eich dec cyflwyno, ond nid ydym eto
wedi siarad am brisio cynnyrch a chyllid.



Beth mae benthycwyr yn chwilio amdano o ran materion ariannol?

Dyma le mae eich pecyn cyfrifon, codau cost a rheoli arian parod yn arbennig o bwysig.

Bydd y benthyciwr yn gofyn am:



Yr elw a'r golled a ragwelir



Y fantolen a ragwelir



Llif arian rhagamcan

Dylai'r rhain gael eu gwneud trwy gydol y benthyciad y gofynnir amdano - 2 i 5 mlynedd yn nodweddiadol, yn fisol.

Er y bydd y banc eisiau gweld crynodeb blynyddol, dylech fod wedi paratoi'r ffigurau manwl misol rhag ofn i'r banc ofyn am y manylion pellach.

I baratoi ar gyfer y rhagolygon hyn, bydd angen i chi ddangos:

Gwerthu

Fesul mis dros gyfnod y benthyciad, wedi'i ddadansoddi yn ôl cynnyrch neu sianel. Gallai hyn fod:

- Marchnadoedd ffermwyr
- Gwerthiant ar-lein
- Gwerthiant i gyfanwerthwyr, manwerthwyr, ac ati.

Mae gallu dangos y lefel hon o fanylder yn dangos eich bod chi'n gwybod o ble mae'ch gwerthiant yn dod. Os ydych chi'n gwerthu trwy sawl sianel, mae hyn yn dangos nad ydych chi'n dibynnu ar un sianel neu allfa benodol. Dylech allu dangos sut rydych chi'n meddwl y byddwch chi'n cyflawni'r gwerthiant hyn trwy faint eich archebion a phrisau gwerthu eich cynhyrchion.

Cost gwerthu (costau amrywiol)

Unwaith eto, fesul mis dros gyfnod y benthyciad.
Y costau i'w cynnwys yma yw:


- Cynhwysion
- Pecynnu (sylfaenol ac allanol)
- Nwyddau traul ar gyfer gwneud eich cynhyrchion e.e. offer amddiffyn personol
- Costau cludo eich cynhyrchion i'r farchnad - gallai hyn gynnwys trafndiaeth / logisteg, cost paledi
- Llafur uniongyrchol - y costau llafur hynny y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r cynhyrchu

Costau sefydlog

Misol, dros gyfnod y benthyciad.

Mae costau sefydlog yn cynnwys:

- Rhent / treth y cyngor
- Costau cyflogau staff na ellir eu priodoli'n uniongyrchol i gynhyrchu'ch cynhyrchion
- Trethi ac yswiriant gwladol
- Unrhyw gostau canolog eraill fel offer swyddfa, achrediadau, systemau TG, ffonau, ac ati.



A fydd, neu a all, y benthyciwr ofyn am warant?

Mae'r benthyciadau a gefnogir gan y llywodraeth wedi rhoi gwarant o 80% i fanciau am Fenthyciad Tarfu ar Fusnes Coronafeirws, gyda'r benthyciad "bownsio yn ôl" a lansiwyd yn ddiweddar gan fusnesau yn cynnig cefnogaeth 100% gan y llywodraeth i fenthycwyr. Fodd bynnag, os ydych chi'n benthycu mwy na'r hyn a warantir gan y llywodraeth, mae'n naturiol y gallai benthyciwr geisio sicrwydd dros y swm ychwanegol hwnnw.

Un farn sy'n werth ei hystyried yw na ddylech fyth gynnig unrhyw beth fel sicrwydd oni bai eich bod yn barod i fentro ei golli. Mae hyn yn berthnasol yn benodol os yw'r benthyciwr yn ceisio gwarantau personol yn hytrach na sicrwydd dros asedau o fewn cyfyngiadau cwmni atebolrwydd cyfyngedig.



Beth nesaf?

Mae Busnes Cymru wedi cyhoeddi rhai canllawiau defnyddiol iawn ar wahanol fathau o gyllid a all eich helpu i benderfynu pa fath o gyllid sydd ei angen arnoch ar gyfer eich busnes:

<https://businesswales.gov.wales/businessfinance/cy>

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am gymorth ariannol fel benthyciadau a grantiau a ddarperir gan y llywodraeth i fusnesau y mae Covid-19 yn effeithio arnynt, ewch i:

<https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/cymorth/cymorth-ariannol-grantiau>

I gael sgwrs gyfrinachol am sut i baratoi cais am fenthyciad neu grant a rhagolygon ariannol ar gyfer eich busnes bwyd neu ddiod, e-bostiwch:

Bwyd-food@bic-innovation.com